Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 62D o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (a pharagraff 34 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), i'w gymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad

---

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif (Cy.)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Twbercwlosis (Profi a Phwerau Mynediad) (Cymru) 2008

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu bod twbercwlosis yn glefyd at ddibenion adran 62D o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif (Cy.)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Twbercwlosis (Profi a Phwerau Mynediad) (Cymru) 2008

Gwnaed	*2008*
Yn dod i rym	*2008*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 62D o'r Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol—

Yn unol ag adran 62D o'r Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981, mae drafft o'r Gorchymyn hwn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi gymeradwyo trwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Twbercwlosis (Profi a Phwerau Mynediad) (Cymru) 2008; mae'n gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym drannoeth diwrnod ei wneud.

Pennu "disease"

2. Mae twbercwlosis wedi'i bennu'n glefyd ("*disease*") at ddibenion adran 62D (profion a samplau: pŵer mynediad) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

Enw

(**1**) 1981 p.22. Trosglwyddodd O.S. 2004/3044 swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 62D o'r Ddeddf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru